***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 14

# RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

## **RHAN 2**

## RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

*Masnachwr eiddo yn caffael gan unigolyn sy'n caffael annedd newydd*

3 (1) Pan fo masnachwr eiddo yn caffael annedd ("yr hen annedd") gan unigolyn (boed ar ei ben ei hun neu ynghyd ag unigolion eraill), mae'r caffaeliad wedi ei ryddhau rhag treth os bodlonir yr amodau a ganlyn (ond gweler is-baragraff (4) am ddarpariaeth ynghylch rhyddhad rhannol).

(2) Yr amodau yw—

(a) y gwneir y caffaeliad yng nghwrs busnes sy'n cynnwys caffael anheddau gan unigolion sy'n caffael anheddau newydd gan adeiladwyr tai, neu'n ymwneud â hynny,

(b) bod yr unigolyn (boed ar ei ben eu hun neu ynghyd ag unigolion eraill) yn caffael annedd newydd gan adeiladwr tai,

(c) bod yr unigolyn—

(i) wedi meddiannu'r hen annedd fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa ar ryw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae'r masnachwr eiddo yn ei gaffael, a

(ii) yn bwriadu meddiannu'r annedd newydd fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa,

(d) nad yw'r masnachwr eiddo yn bwriadu—

(i) gwario mwy na'r swm a ganiateir ar adnewyddu'r hen annedd,

(ii) rhoi les neu drwydded ar gyfer yr hen annedd, na

(iii) caniatáu i unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion (neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion) feddiannu'r hen annedd, ac

(e) nad yw arwynebedd y tir a gaffaelir gan y masnachwr eiddo yn fwy na'r arwynebedd a ganiateir.

(3) Nid yw is-baragraff (2)(d)(ii) yn gymwys o ran rhoi les neu drwydded i'r unigolyn am gyfnod o ddim mwy na 6 mis.

(4) Pan fodlonir yr amodau yn is-baragraff (2)(a) i (d) ond bod arwynebedd y tir a gaffaelir gan y masnachwr eiddo yn fwy na'r arwynebedd a ganiateir, cymerir mai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y caffaeliad yw'r swm a gyfrifir drwy ddidynnu gwerth marchnadol yr arwynebedd a ganiateir o werth marchnadol yr hen annedd.

(5) Yn y paragraff hwn—

(a) mae cyfeiriadau at gaffael annedd newydd yn gyfeiriadau at gaffael, drwy roi neu drosglwyddo, brif fuddiant yn yr annedd,

(b) mae cyfeiriadau at gaffael yr hen annedd yn gyfeiriadau at gaffael, drwy drosglwyddo, brif fuddiant yn yr annedd, ac

(c) mae cyfeiriadau at werth marchnadol yr hen annedd a'r arwynebedd a ganiateir yn gyfeiriadau at werth marchnadol y prif fuddiant hwnnw yn

yr annedd, a gwerth marchnadol y buddiant hwnnw i'r graddau y mae'n ymwneud â'r arwynebedd hwnnw.